Cofion

Parhawn i gofio am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid ac am y cleifion oll. Mae sawl un sydd heb fod cystal eu hiechyd, rhai yn derbyn triniaeth, ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cofiwn yn arbennig am Elwyn Tudor (Henllan) sy'n cael gofal ysbeidiol ar hyn o bryd; Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yng Nghanolfan Walton, Lerpwl; Doreen Evans (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd; a Meurig Owen (Cefn Meiriadog) a Peter Jones (Groes) yn yr Inffirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Joyce Lloyd (Llanfair) yn gwella ac adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn bob un ohonoch i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid hefyd.

Pwyllgor Bugeiliol

Tra byddwn yn parhau i weithredu ar ddyhead yr eglwysi i alw gweinidog i'r Fro, penderfynwyd yn ein cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 5ed i roi sylw hefyd i sawl agwedd o'r weinidogaeth sydd angen ystyriaeth dros y tymor byr. Sylweddolwn y gall y broses o alw gweinidog gymryd amser, ac felly ein bwriad yw creu pedwar grŵp er mwyn rhoi sylw i amrywiol dasgau a chynnig arweiniad o ran syniadau sut allwn weithredu'r amrywiol weinidogaethau dros y cyfnod hwn. Gofynnir yn garedig felly i aelodau'r Pwyllgor Bugeiliol ac aelodau eraill yr eglwysi ystyried yn weddigar a allwch, yn ôl yr awydd a'r ddawn sydd gennych, gyfrannu at waith y Grwpiau. Nid yw'n angenrheidiol mai aelodau'r Grwpiau fydd yn gweithredu ar y cynlluniau neu'r gweithgarwch bob tro – fe all rhoi arweiniad neu gyngor hefyd fod yn fuddiol. Ond wrth gwrs, er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny, bydd angen rhai fydd yn barod i weithredu hefyd. Bydd y Grwpiau yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Bugeiliol llawn ymhob cyfarfod. Y pedwar grŵp fydd:

1. Grŵp gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau
2. Grŵp y weinidogaeth Fugeiliol a Gofal
3. Grŵp gweinidogaeth i Blant, Ieuenctid a Theuluoedd Ifanc
4. Grŵp Cenhadaeth a Chyfathrebu

Felly, os byddwch yn awyddus i fod yn aelod o Grŵp, rhowch eich enw i Mair **erbyn Mehefin 26ain**, os gwelwch yn dda, gan nodi pa Grŵp fyddech chi'n dymuno bod yn rhan ohono er mwyn i ni allu trefnu i gyfarfod. *(Os am fwy o fanylion am yr hyn fydd y Grwpiau yn eu trafod, holwch un o aelodau'r Pwyllgor Bugeiliol neu cysylltwch â Mair.)*

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Bugeiliol yn cael ei gynnal **nos Lun, Gorffennaf 17eg** *(mwy o fanylion i ddilyn)*. Erfyniwn ar bob un ohonoch i barhau i weddïo'n daer am arweiniad Duw dros yr wythnosau nesaf hyn, os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18 Mehefin 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Ping!

Ping! Neges arall ar *WhatsApp* y teulu. Chi sy'n anghyfarwydd â thechnoleg ffonau clyfar, dychmygwch rywun yn canu cloch y drws bob dau funud efo telegram a bydd gennych syniad go lew be' ydi *WhatsApp* - a'i 'bing'!) Fel arfer, rhannu gwybodaeth am y teulu ar wasgar, gwneud trefniadau i gyfarfod â'i gilydd, neu drafod y diweddaraf am bêl droed a wna'r plant trwyddo. Mae'n gyfrwng hwylus, er cyfaddef mai tipyn o niwsans ydi'r ping sy'n fy nhynnu oddi wrth dasg bwysig i weld be' gafodd Dafydd i swper!

Ond nos Sadwrn diwethaf, nid pêl droed na gwleidyddiaeth na hyd yn oed luniau'r wyrion oedd yn gyfrifol am y pingio. Un gair yn unig oedd cynnwys y neges gyntaf o Gaernarfon: 'Glaw!' Dim ond y defnyn lleiaf; ond roedd yn ddigon i sgwennu adra yn ei gylch. A ping 'Dim glaw yma' a phing 'Dim glaw eto' fu hi am funudau, cyn i'r negeseuon gyrraedd o Gaerdydd – 'Wedi glawio pnawn ma', ac o Lerpwl – 'Storm yma!'

Ddaeth y glaw ddim i Lanberis nos Sadwrn, a bu raid aros tan oriau mân fore Llun am y gawod gyntaf gwerth sôn amdani. Nid bod honno'n drom iawn chwaith, a melys moes mwy yw hi yma o hyd ganol yr wythnos. Ond dwi'n deall iddi fod yn storm ym Mro Aled – neu o leiaf yn Llannefydd – nos Sadwrn a dydd Sul. Ac er ein cwyno mynych, roedd pawb yn falch o weld hynny o law a gawsom wedi'r wythnosau o dywydd sych, crasboeth.

Bu hen ddisgwyl am law yn Israel yn nyddiau Elias. Wedi dwy flynedd a mwy o sychder, rhoddodd Duw ar wybod i'r proffwyd bod glaw i ddod, a rhybuddiodd Elias y brenin Ahab i ffoi rhag i'r glaw ei rwystro! Oherwydd addewid Duw, credai Elias y deuai glaw trwm er na welai ond cwmwl bychan (1 Brenhinoedd 18:41-46). Mae hynny'n f'atgoffa o'r stori am y wraig a aeth i gyfarfod gweddi i alw am law mewn cyfnod o sychder mawr gan fynd â'i hymbarél efo hi! Y fath ffydd! Tybed faint o weddïo am law a wnaed dros yr wythnosau diwethaf? Ac yn y sychder ysbrydol a'n blinodd ers mwy o lawer na'r ddwy flynedd sych a brofodd Elias a'i bobl, gweddïwn y bydd yr Ysbryd Glân yn glawio arnom ei fendith gan weddnewid ein gwlad trwy ein bywhau ni fel pobl Dduw a dwyn llaweroedd at yr Arglwydd Iesu Grist. Diolchwn am y dafnau lleiaf o fendith Duw, gan ddyheu am fwy a deisyf bob dydd ar iddo droi'r dafnau mân yn gafodydd gwlithog ac adnewyddol.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 18fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30yb ac **yn Llanfair** am 11:00yb o dan arweiniad Mr Arfon Jones. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa yn Llansannan er mwyn cynnal pleidlais ddirgel i enwebu blaenoriaid. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30yb ac **yn Henllan** am 11:00yb o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa yn Henllan hefyd, hynny er mwyn cynnal pleidlais ddirgel i enwebu blaenoriaid.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00yh gyda Rhys Dafis yn arwain a Mr Arfon Jones yn pregethu.

Dydd Mawrth, Mehefin 20fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00 dydd.

Dydd Gwener, Mehefin 23ain

- **Noson Rownderi a Barbeciw** wedi ei threfnu gan aelodau Capel Llannefydd ar y Cae Chwarae am 6:30yh – croeso cynnes i bawb. Bydd elw'r noson yn mynd at Epilepsi Cymru. Er mwyn gwybod faint o fwyd i'w baratoi, gofynnir yn garedig i chi roi eich enw i Erina (01745 540388 / simddehir@gmail.com) neu Gwenan (01745 540217 / gwenan217@gmail.com) **erbyn nos Fawrth, Mehefin 20fed**, os gwelwch yn dda. Bydd stondin gacennau yno, ac mae croeso i chi ddod â chacen efo chi neu ddod draw i brynu cacen ar y noson.

Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Mehefin 23ain–24ain

- **'Disglair'** yng Ngholeg y Bala i ferched oedran 15+. Bydd yn amser i annog y naill a'r llall, i geisio Iesu ac i gredu y gallwn drawsffurfio ein cymunedau gyda'i gariad Ef. Bydd y nos Wener yn noson o fawl a dysgeidiaeth, a chacennau hyfryd a phaned wrth i chi gyrraedd! Sian Wyn Rees o Cymdeithas y Beibl fydd y brif siaradwraig ar y dydd Sadwrn a bydd panel o ferched sy'n gwneud gwaith arloesol yn rhannu yn y prynhawn. Cost y penwythnos fydd £42 sy'n cynnwys gwely a brecwast, a chinio dydd Sadwrn; neu £26 am y dydd Sadwrn yn unig sy'n cynnwys cinio. Gallwch gofrestru ar-lein, neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565.

Dydd Sul, Mehefin 25ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30yb ac **yn Llansannan** am 11:00yb o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan, ac Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00yp.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30yb ac **yn Groes** am 11:00yb o dan arweiniad y Parch. David Owens.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00yb ac **yn Groes** am 10:15yb.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00yb ac **yn Nantglyn** am 2:00yb o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00yp.

Dydd Mawrth, Mehefin 27ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00 dydd.

Dydd Sul, Gorffennaf 2il

Bore Bro Aled: 'Llawenydd yng Nghrist'

Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 10:30yb
o dan arweiniad Huw ac Eryl.
Bydd cyfle hefyd i wrando ar ddarllediad o dystiolaeth Ifan Gruffydd (Tregaron).
Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ddod i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, a bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd yno. *(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, gallwn fwynhau ein picnic yn y Festri.)*

Enwebiadau Medal Gee

Cofiwch bod angen i bob ffurflen gais am Fedal Gee fod mewn llaw erbyn Mehefin 30ain. Mae manylion llawn a ffurflen gais ar gael o wefan www.ysgolsul.com. Gallwch glicio ar y ddolen Ffurflen Gais Medalau Gee i lawrlwytho ffurflen enwebu neu cysylltwch â Mair i gael copi papur. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Aled Davies: aled@ ysgolsul.com.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (28ain), os gwelwch yn dda.